Bwletin Ystadegol


# Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, 2019/20

27 Mai 2021
SB 18/2021

Mae'r bwletin hwn yn rhoi gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon, gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant mewn prifysgolion yng Nghymru a hefyd y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio ledled y DU.

Cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n arwaith at Statws Athro Cymwysedig yw'r brif ffordd o ddod yn athro, ond nid dyma'r unig ffordd. Fodd bynnag, nid yw'r llwybrau eraill, fel y Rhaglen Athrawon Graddedig a Teach First wedi'u cynnwys yn y bwletin hwn. Mae yna lwybrau eraill i ennill SAC drwy gyflogaeth, ond nid yw'r bwletin hwn yn sôn am y rheini.

**Dyraniadau derbyn a dyraniadau o ran newydd-ddyfodiaid ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

- Roedd nifer yr athrawon ysgol uwchradd newydd o dan hyfforddiant yn is na'r ffigur dyrannu am chweched blwyddyn (54% yn is yn 2019/20). Roedd nifer yr athrawon ysgol cynradd newydd o dan hyfforddiant yn is na'r ffigur am bumed blwyddyn (12% yn is yn 2019/20).
- Dechreuodd 1,080 ar gyrsiau AGA yn 2019/20; 615 ar gyrsiau ysgolion cynradd a 465 ar gyrsiau ysgolion uwchradd.
- Bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg yn dilyn gostyngiad dros y pum mlynedd blaenorol. 235 oedd y ffigur yn 2019/20, sef 22% o gyfanswm nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru.
- Gwyddoniaeth, Saesneg a Mathemateg yw'r pynciau mwyaf cyffredin i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd.
- Roedd ychydig dros 8 o bob 10 (86%) o fyfyrwyr AGA newydd a oedd yn hyfforddi yng Nghymru yn byw yng Nghymru cyn dechrau ar eu gradd.

## Ynglŷn â'r bwletin hwn

Cymerwyd y data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a talgrynwyd yn unol â strategaeth yr asiantaeth (gweler yr adran ar fethodoleg).

Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2019/20.

## Yn y bwletin hwn

Cyd-destun polisi 2
Myfyrwyr yng Nghymru 3
Myfyrwyr cymwysedig yng Nghymru 5
Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU 7
Myfyrwyr cymwysedig o Gymru sy'n astudio yn y DU 10
Pynciau 12
Y Gymraeg 14
Demograffeg 17
Methodoleg 21
Diffiniadau 23
Gwybodaeth allweddol am ansawdd 26
Cyhoeddiadau cysylltiedig 28

Ystadegydd: Katherine Green ~ 0300 025 5050 ~ addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Cyd-destun polisi

### Dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20

Ar gyfer 2019/20, Cyngor y Gweithlu Addysg bennodd y dyraniadau ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru. Mae'r dyraniadau yn ymwneud â'r nifer sy'n hyfforddi i fod naill ai'n athrawon ysgol gynradd neu'n athrawon ysgol uwchradd a'r nifer sy'n gwneud cyrsiau ôl-raddedig neu israddedig. Arferai cyrsiau ôl-raddedig a TAR olygu yr un peth, er bod rhywfaint o fân wahaniaethau rhyngddynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan 'Y math o radd' yn y Diffiniadau.

### Hanes y polisi

Rhwng 2005/06 a 2013/14, bu Llywodraeth Cymru yn anelu at leihau nifer y bobl sy'n gwneud cyrsiau AGA er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion ysgolion yng Nghymru. Gwnaed hyn mewn ymateb i Adolygiad o'r Ddarpariaeth o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. Yn 2014, cafodd yr Athro John Furlong ei benodi'n Gynghorydd Cymru ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gyhoeddi Addysgu Athrawon Yfory yn 2015. Cyhoeddwyd manylion rhaglenni AGA achrededig newydd i'w cyflwyno o fis Medi 2019 mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig. Ers Medi 2019, o dan y meini prawf achredu newydd, dim ond rhaglenni TAR sy'n cael eu hachredu i ddarparu AGA ar gyfer addysg uwchradd.

**Dyraniadau Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer cyrsiau yng Nghymru, 2019/20**

| | TAR | Gradd arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ysgol gynradd | 418 | 278 | 696 |
| Ysgol uwchradd | 1,006 | . | 1,006 |
| Cyfanswm | 1,424 | 278 | **1,702** |

*Ffynhonnell: CGA*

### Canolfannau Addysg Athrawon

Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, achredwyd y Partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon canlynol:

- CaBan (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer)
- Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac Abertawe)
- Partneriaeth Caerdydd
- Partneriaeth AGA Aberystwyth

### Cymhellion

Gall myfyrwyr gael grantiau i'w cymell i hyfforddi mewn meysydd penodol. Mae gwerth y cymhellion yn amrywio, gan ddibynnu ar bwnc y cwrs a chymwysterau'r myfyriwr. Caiff y rhain eu pennu bob blwyddyn gan y Gweinidog, yn ôl yr angen o fewn y sector.

## Adran A: Myfyrwyr yng Nghymru

Mae'r adran hon yn ymwneud â myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau AGA mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'n cynnwys myfyrwyr o Gymru a oedd yn gwneud cyrsiau AGA yn y Brifysgol Agored, pan y bu i'r brifysgol honno ddarparu cyrsiau. Mae'r data'n ymwneud â myfyrwyr sy'n dechrau eu cwrs – sef myfyrwyr blwyddyn gyntaf. Mae gwybodaeth am fyfyrwyr AGA ym mhob blwyddyn o'u cyrsiau ar gael ar StatsCymru.

### Tabl A.1: Lefel ysgol a math gradd myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn erbyn y dyraniadau, 2014/15 i 2019/20


| Ysgol gynradd | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TAR | 465 | 440 | 425 | 430 | 375 | 420 |
| Gradd arall | 290 | 270 | 270 | 245 | 210 | 190 |
| Cyfanswm Ysgol gynradd | 760 | 710 | 700 | 670 | 585 | 615 |
| Dyraniadau Ysgol gynradd | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 | 696 |
| Ysgol uwchradd | - | - | - | | | |
| TAR | 695 | 560 | 530 | 495 | 450 | 455 |
| Gradd arall | 45 | 35 | 20 | 35 | 30 | 10 |
| Cyfanswm Ysgol uwchradd | 740 | 600 | 545 | 525 | 480 | 465 |
| Dyraniadau Ysgol uwchradd | 880 | 880 | 871 | 871 | 851 | 1,006 |
| Cyfanswm cofrestradiau | 1,500 | 1,310 | 1,245 | 1,200 | 1,065 | 1,080 |
| Cyfanswm dyraniadau | 1,630 | 1,630 | 1,621 | 1,621 | 1,601 | 1,702 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

1. Y dyraniad ar gyfer cyrsiau cynradd oedd 696, ond dim ond 615 a gofrestrodd. Y dyraniadau ar gyfer cyrsiau uwchradd oedd 1,006 ond dim ond 465 a gofrestrodd.
2. Gostyngodd y nifer a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn 2019/20 i 465, sef 3% yn llai nag yn 2018/19. Roedd y nifer a gofrestrodd ar gyfer AGA ysgol uwchradd yn 2019/20 ddim ond yn 46% o'r lefel ddyrannu.
3. Mae'r nifer sy'n dechrau cyrsiau AGA ysgol gynradd hefyd wedi cynyddu yn 2019/20 i 615, sef 5% yn fwy nag yn 2018/19. Ar gyfer 2019/20, cyrhaeddwyd 88% o'r lefel ddyrannu ar gyfer ysgolion cynradd.

**Siart A.1: Math gradd myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Roedd y niferoedd yn y grŵp 'gradd arall' yn cyd-fynd yn agos â'r dyraniadau rhwng 2006/07 a 2012/13, ond ers hynny maent wedi bod yn is, a hynny i raddau cynyddol. Mae mwyafrif y myfyrwyr AGA 'gradd arall' yn astudio ar lefel ysgol gynradd. O 2019/20, dim ond rhaglenni TAR oedd wedi'u hachredu i ddarparu AGA ar gyfer addysg uwchradd.
- Gyda 875 o newydd-ddyfodiaid, roedd y niferoedd ar gyfer TAR tua dwy ran o bump (549) yn brin o'r dyraniadau yn 2019/20.
- Roedd niferoedd 'Graddau eraill' tua chwarter (73) yn llai na'r dyraniadau hefyd, sef 205.

**Tabl A.2: Gwlad gartref myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru**

| Gwlad gartref | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DU | Cymru | 1,250 | 1,150 | 1,105 | 1,025 | 935 | 925 |
| | Lloegr | 200 | 110 | 105 | 105 | 85 | 65 |
| | Yr Alban | * | . | . | * | * | * |
| | Gogledd Iwerddon | 10 | 15 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| | Cyfanswm DU | 1,460 | 1,275 | 1,220 | 1,140 | 1,025 | 995 |
| | Gwlad arall o'r UE | 25 | 15 | 10 | 15 | * | 15 |
| Heb fod yn y DU | Heb fod o'r UE | 15 | 20 | 15 | 45 | 35 | 70 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*


[Gweler y data]

- Nid yw'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr AGA i'w briodoli i ostyngiadau yn nifer y myfyrwyr sy'n dod o unrhyw wlad benodol yn unig. Gostyngodd nifer y myfyrwyr o Gymru 10 (1%) rhwng 2018/19 a 2019/20, tra bo nifer y myfyrwyr o Loegr wedi gostwng 20 (24%).
- Roedd mwy nag 8 o bob 10 o fyfyrwyr (86%) a ddechreuodd gwrs AGA yng Nghymru yn 2019/20 yn byw yng Nghymru cyn hynny. Yn 2018/19, roedd y gyfradd ychydig yn uwch (88%).

## Adran B: Myfyrwyr cymwysedig yng Nghymru

Y rhai a gafodd gymhwyster gan gwrs AGA yn y flwyddyn honno yw myfyrwyr cymwysedig. Dim ond y rhai a gyflawnodd Statws Athro Cymwysedig (SAC) sydd wedi'u cynnwys.

**Siart B.1: Myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau AGA yng Nghymru o'u cymharu â myfyrwyr blwyddyn gyntaf**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data – Myfyrwyr cymwysedig, Myfyrwyr blwyddyn gyntaf]

- Mae'r tueddiadau ymysg myfyrwyr cymwysedig yn debyg i'r tueddiadau ymysg pobl sy'n dechrau cyrsiau AGA, gan fod mwyafrif y cyrsiau AGA yn para blwyddyn.
- Yn 2019/20, gwnaeth 1,030 o bobl gymhwyso'n llwyddiannus o gwrs AGA yng Nghymru a bu i 1,080 o bobl ddechrau ar gwrs.

**Tabl B.1: Lefel ysgol myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau AGA yng Nghymru**


| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol gynradd | 625 | 640 | 640 | 605 | 550 | 595 |
| Ysgol uwchradd | 685 | 530 | 505 | 450 | 405 | 435 |
| **Cyfanswm** | 1,310 | 1,170 | 1,145 | 1,055 | 955 | 1,030 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Gwnaeth 75 yn fwy o fyfyrwyr ennill Statws Athro Cymwysedig yn 2019/20 na'r flwyddyn flaenorol, sy'n gwrthdroi'r duedd flaenorol ar i lawr.

**Siart B.2: Dosbarth gradd myfyrwyr cymwysedig nad oeddent yn gwneud TAR ac a oedd ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn 2019/20**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]


- Cafodd 24% (55) o'r myfyrwyr cymwysedig yng Nghymru Anrhydedd Dosbarth Cyntaf.
- Derbyniodd mwy na 8 o bob 10 (82%) a enillodd radd addysgu yng Nghymru radd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch (2-1) neu uwch yn 2019/20.

## Adran C: Myfyrwyr o Gymru sy’n astudio yn y DU

Mae’r adran hon yn ymwneud â myfyrwyr o Gymru a astudiodd gyrsiau AGA yn y DU, a hynny yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Ystyriwyd bod rhywun yn dod o Gymru os oedd cyfeiriad ei gartref yng Nghymru **cyn** iddo ddechrau’r cwrs (gweler ‘myfyrwyr o Gymru’ yn yr adran ddiffiniadau).

Yn y gorffennol, bu’r diddordeb pennaf mewn myfyrwyr sy’n astudio cyrsiau AGA yng Nghymru, o ble bynnag yr oeddent yn dod. Y rheswm am hynny yw bod cyrsiau AGA yng Nghymru yn addysgu Cwricwlwm Cymru, sy’n wahanol i gwricwlwm gwledydd eraill y DU. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am gyrchfannau myfyrwyr AGA yn awgrymu bod llawer o fyfyrwyr yn dychwelyd i’w gwledydd cartref i ddechrau addysgu. Golyga hyn, wrth gwrs, y gall myfyrwyr o Gymru sy’n hyfforddi i fod yn athrawon mewn mannau eraill yn y DU ddychwelyd i Gymru pan fyddant yn dechrau addysgu.

**Siart C.1: Myfyrwyr o Gymru sy’n dechrau ar gyrsiau AGA yn y DU, yn ôl lefel addysgu (cynradd ac uwchradd), 2014/15 i 2019/20**





*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Bu cynnydd bach yn nifer y myfyrwyr o Gymru a ddechreuodd ar gyrsiau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Gwelwyd cynnydd yn nifer y myfyrwyr lefel cynradd o 855 yn 2018/19 i 885 yn 2019/20, a gwelwyd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr lefel uwchradd o 630 yn 2018/19 i 650 yn 2019/20.

**Siart C.2: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA lefel gynradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2014/15 i 2019/20**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Mae nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio AGA ar lefel gynradd yng Nghymru wedi cynyddu ychydig yn 2019/20 (10 yn fwy o fyfyrwyr nag yn 2018/19). Mae'r rheini sy'n dewis astudio yn Lloegr hefyd wedi cynyddu ychydig (20 yn fwy o fyfyrwyr nag yn 2018/19).

**Siart C.3: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA lefel uwchradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2014/15 i 2019/20**



*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Gostyngodd nifer y myfyrwyr AGA newydd o Gymru a oedd yn hyfforddi'n athrawon ysgol uwchradd 5% (20 o fyfyrwyr) yn 2019/20 o gymharu â 2018/19. Fodd bynnag, cynyddodd y nifer a ddechreuodd hyfforddi yn Lloegr 17% (40 o fyfyrwyr) yn yr un cyfnod.
- Er bod cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n dechrau hyfforddi fel athrawon uwchradd yn Lloegr wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf (22% o 750 o fyfyrwyr yn 2013/14, o gymharu â 41% o 650 o fyfyrwyr yn 2029/20), nid yw hyn yn golygu y bydd yna brinder athrawon yng Nghymru yn y dyfodol.

**Tabl C.1: Rhanbarth cartref a gwlad astudio myfyrwyr o Gymru sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yn y DU, 2019/20**

| | Gwlad astudio | | |
|---|---|---|---|
| Rhanbarth cartref | Cymru | Lloegr | Cyfanswm |
| Gogledd Cymru | 175 | 270 | 445 |
| De orllewin a Chanolbarth Cymru | 310 | 125 | 435 |
| Canol De Cymru | 290 | 115 | 405 |
| De Ddwyrain Cymru | 150 | 100 | 245 |
| Pob rhanbarth (a) | 925 | 610 | 1,535 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Roedd bron i ddwy ran o dair (61%) y myfyrwyr AGA newydd o Ogledd Cymru yn astudio yn Lloegr. Yn y rhanbarth â'r ganran uchaf ond un, sef De-ddwyrain Cymru, tua 2 o bob 5 (40%) o'r myfyrwyr AGA newydd a oedd yn astudio yn Lloegr.

- Roedd bron i ddwy ran o dair (61%) y myfyrwyr AGA newydd o Ogledd Cymru yn astudio yn Lloegr. Yn y rhanbarth â'r ganran uchaf ond un, sef De-ddwyrain Cymru, tua 2 o bob 5 (40%) o'r myfyrwyr AGA newydd a oedd yn astudio yn Lloegr.


- Canol De Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru anfonodd y gyfran isaf o fyfyrwyr AGA newydd i Loegr, sef bron i 1 o bob 3 (29%). Mae Canol De Cymru'n cynnwys Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg, ac mae Canolbarth a De-orllewin Cymru'n cynnwys Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

## Adran D: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru sy'n astudio yn y DU

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i fyfyrwyr sy'n dod o Gymru ac a gymhwysodd ar ddiwedd cyrsiau AGA yn y DU, yng Nghymru ac mewn mannau eraill ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Mae Adran B yn rhoi gwybodaeth am ddiffiniad 'myfyrwyr cymwysedig'. Mae Adran C yn cyflwyno gwybodaeth gefndir am fyfyrwyr o Gymru.

**Siart D.1: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru ar gyrsiau AGA lefel gynradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2014/15 i 2019/20**





*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Yng Nghymru, roedd cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA cynradd a gafodd Statws Athro Cymwysedig yn 2019/20 i 510 (o 490 yn 2018/19).
- Ar gyfer y rheini a astudiodd yn Lloegr, gwelwyd gostyngiad yn y nifer a gymhwysodd yn 2019/20 i 295 (o 330 yn 2018/19). Y rheswm am hyn yw'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr o Gymru a ddewisodd astudio yn Lloegr.


**Siart D.2: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru ar gyrsiau AGA lefel uwchradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2014/15 i 2019/20**




[Gweler y data]

- Yng Nghymru, gwelwyd cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA uwchradd a enillodd Statws Athro Cymwysedig yn 2019/20 i 360 (o 345 yn 2018/19).
- Yn 2018/19, roedd cynnydd yn y nifer a gymhwysodd ar ôl astudio yn Lloegr (235 o gymharu â 195 yn 2018/19).

**Siart D.3: Dosbarthiadau gradd y myfyrwyr o Gymru a gymhwysodd ar gyrsiau AGA yn y DU yn 2019/20, nad oeddent yn dilyn cwrs TAR**




- Cafodd bron i 1 o bob 4 o fyfyrwyr o Gymru a gafodd radd addysgu radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf.
- Cafodd bron i 4 o bob 5 o fyfyrwyr cymwysedig o Gymru Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch (2-1) neu uwch yn eu gradd addysgu.

## Adran E: Pynciau

Mae myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yn dewis pwnc i arbenigo ynddo. Mae Tabl E.1 yn ymwneud â myfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau AGA yng Nghymru. Mae Tabl E.2 yn ymwneud â myfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio cyrsiau AGA ledled y DU. Mae pynciau'n cael eu mesur ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn (gweler yr adrad ddiffiniadau). Petai cwrs AGA myfyriwr yn canolbwyntio ar fathemateg hanner yr amser ac ar ffiseg am yr hanner arall, felly, byddai'r ffigurau'n ymddangos fel myfyrwyr 0.5 mathemateg a 0.5 ffiseg.

Yn Adran F mae golwg ar ddewisiadau pynciau pobl a oedd yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg, ac yn Adran G mae golwg ar y rhaniad rhwng y rhywiau mewn pynciau.

### Tabl E.1: Pwnc myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA pynciau blaenoriaeth ysgol uwchradd yng Nghymru, 2014/15 i 2019/20

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwyddoniaeth | 105 | 95 | 90 | 85 | 85 | 60 |
| Bioleg | 30 | 35 | 35 | 40 | 30 | 20 |
| Cemeg | 35 | 20 | 30 | 20 | 25 | 20 |
| Ffiseg | 25 | 25 | 20 | 15 | 20 | 10 |
| Gwyddoniaeth Gyffredinol | 20 | 20 | 5 | 5 | 10 | 5 |
| Mathemateg | 110 | 75 | 65 | 55 | 60 | 40 |
| Saesneg | 110 | 75 | 65 | 60 | 40 | 60 |
| Cymraeg | 35 | 25 | 35 | 25 | 15 | 20 |
| Ieithoedd Modern | 45 | 30 | 35 | 30 | 20 | 30 |
| Systemau Gwybodaeth | 25 | 15 | 20 | 20 | 15 | 10 |
| **Cyfanswm Pynciau Blaenoriaeth** | **430** | **315** | **310** | **275** | **235** | **220** |
| **Cyfanswm Ysgolion Uwchradd** | **740** | **600** | **545** | **525** | **480** | **465** |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Gwyddoniaeth, Saesneg a Mathemateg oedd y pynciau blaenoriaeth mwyaf cyffredin i bobl a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru yn 2019/20. Roedd Addysg Gorfforol yn fwy cyffredin na Mathemateg o ystyried pob pwnc.
- Roedd ychydig dros 1 o bob 4 (27%) o'r myfyrwyr newydd a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru yn astudio pwnc STEM – sef Gwyddoniaeth, Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg, neu TG.

## Tabl E.2: Pwnc myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn y DU, 2014/15 i 2019/20

| | 2014/15 | | | 2015/16 | | | 2016/17 | | | 2017/18 | | | 2018/19 | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) | Cymru | Lloegr | Cyfanswm (a) |
| Cyfanswm | 85 | 25 | 110 | 80 | 35 | 110 | 75 | 40 | 110 | 65 | 30 | 95 | 75 | 45 | 120 | 45 | 45 | 95 |
| Gwyddoniaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bioleg | 25 | 5 | 30 | 30 | 10 | 40 | 30 | 15 | 45 | 30 | 10 | 40 | 30 | 25 | 55 | 20 | 25 | 45 |
| Ffiseg | 20 | 5 | 25 | 20 | 15 | 35 | 15 | 15 | 30 | 15 | 10 | 25 | 15 | 10 | 25 | 5 | 10 | 15 |
| Cemeg | 30 | 15 | 40 | 20 | 10 | 30 | 20 | 10 | 30 | 20 | 5 | 30 | 25 | 15 | 35 | 20 | 10 | 30 |
| Gwyddoniaeth Gyffredinol | 10 | * | 10 | 10 | * | 10 | 5 | * | 5 | 5 | * | 5 | 5 | * | 5 | 5 | * | 5 |
| Mathemateg | 90 | 35 | 125 | 65 | 35 | 100 | 60 | 35 | 95 | 50 | 35 | 85 | 55 | 25 | 80 | 35 | 30 | 65 |
| Saesneg | 75 | 25 | 100 | 65 | 15 | 80 | 55 | 20 | 75 | 45 | 25 | 70 | 35 | 30 | 60 | 55 | 35 | 95 |
| Ieithoedd Modern | 30 | 15 | 50 | 20 | 10 | 30 | 30 | 25 | 50 | 25 | 25 | 45 | 15 | 15 | 30 | 20 | 10 | 30 |
| Cymraeg | 35 | * | 35 | 25 | * | 25 | 35 | * | 35 | 25 | * | 25 | 15 | * | 15 | 20 | * | 20 |
| Systemau Gwybodaeth | 20 | 10 | 30 | 15 | 5 | 20 | 15 | 5 | 20 | 20 | 10 | 30 | 15 | 10 | 20 | 10 | 5 | 15 |
| **Cyfanswm Pynciau Blaenoriaeth** | **340** | **110** | **450** | **270** | **100** | **370** | **270** | **125** | **395** | **230** | **120** | **350** | **205** | **120** | **330** | **190** | **130** | **320** |
| **Cyfanswm Ysgolion Uwchradd (b)** | **585** | **170** | **755** | **510** | **185** | **690** | **470** | **245** | **720** | **435** | **215** | **650** | **405** | **225** | **630** | **385** | **265** | **650** |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]


- Yn achos myfyrwyr o Gymru, Gwyddoniaeth, Mathemateg, a Saesneg oedd y pynciau blaenoriaeth mwyaf poblogaidd, yn yr un modd ag yr oeddent i fyfyrwyr a oedd yn astudio yng Nghymru yn 2019/20. Fodd bynnag, roedd Addysg Gorfforol a Hanes yn fwy poblogaidd na Mathemateg o ystyried pob pwnc.
- Yn 2019/20, ymysg y myfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio yng Nghymru, mae Saesneg wedi bod gryn dipyn yn fwy cyffredin Mathemateg. Ymysg y myfyrwyr a oedd yn astudio yn Lloegr, roedd Mathemateg a Saesneg ar lefelau tebyg.

## Adran F: y Gymraeg

Mae myfyriwr yr ystyrir ei fod yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg naill ai'n gwneud cwrs sy'n arwain at dystysgrif ar gyfer addysg ddwyieithog, neu gwrs sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ymarferol, gall siaradwyr Cymraeg fynd yn eu blaen i addysgu yn y Gymraeg p'un ai a oedd eu cwrs wedi'i ddynodi'n benodol at y diben hwnnw ai peidio.

### Siart F.1: Myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu yn y Saesneg wedi gostwng bob blwyddyn ers 2007/08, a'r nifer yn 2019/20 oedd 840. Mae hyn yn dilyn tuedd gyffredinol o ostyngiad yn y niferoedd yn gyffredinol, nid dim ond athrawon cyfrwng Saesneg.
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi er mwyn addysgu yn Gymraeg wedi cynyddu i 235 yn 2019/20 (i fyny o 175 yn 2018/19) yn dilyn gostyngiad dros y bum mlynedd flaenorol rhwng 2014/15 a 2018/19.

### Tabl F.1: Myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg a lefel ysgol

| | Lefel ysgol | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gallu addysgu yn Gymraeg | Ysgol gynradd | 135 | 150 | 145 | 110 | 95 | 145 |
| | Ysgol uwchradd | 120 | 95 | 90 | 100 | 75 | 90 |
| | Pob lefel | 255 | 245 | 235 | 210 | 175 | 235 |
| Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg | Pob lefel | 1,245 | 1,065 | 1,010 | 990 | 890 | 840 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Yn 2019/20, roedd 22% o'r myfyrwyr AGA newydd yng Nghymru ar gyrsiau a oedd yn eu galluogi i addysgu yn y Gymraeg, o gymharu ag 17% 5 mlynedd yn ôl (2014/15).

**Tabl F.2: Pwnc myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg, 2019/20**

| | Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg | Gallu addysgu yn Gymraeg |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwyddoniaeth | 50 | 5 |
| Bioleg | 20 | . |
| Cemeg | 15 | 5 |
| Ffiseg | 10 | * |
| Gwyddoniaeth Gyffredinol | 5 | * |
| Mathemateg | 35 | 5 |
| Dylunio a Thechnoleg | 15 | * |
| Systemau Gwybodaeth | 10 | . |
| Celf | 15 | * |
| Astudiaethau Busnes | 5 | . |
| Drama | 20 | 5 |
| Saesneg | 55 | 5 |
| Daearyddiaeth | 25 | 5 |
| Hanes | 45 | 10 |
| Ieithoedd Modern | 10 | 20 |
| Cerddoriaeth | 10 | . |
| Addysg Gorfforol | 50 | 10 |
| Addysg Grefyddol | 15 | * |
| Cymraeg | . | 20 |
| Cyfanswm Ysgol Uwchradd | 375 | 90 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- Roedd pob myfyriwr a oedd yn hyfforddi i addysgu Cymraeg fel pwnc hefyd ar gwrs a oedd yn ei alluogi i addysgu'n ddwyieithog.
- Gwnaeth ychydig dros 1 o bob 10 (13%) o'r myfyrwyr newydd sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg ddewis pwnc STEM – sef cyfran is na chyfran y rhai a oedd yn hyfforddi i addysgu yn y Saesneg yn unig (31%). Gwyddoniaeth, Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg, a TG yw'r pynciau STEM.

**Tabl F.3: Nifer y myfyrwyr sy'n cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg, 2019/20**

| | Siaradwr Cymraeg rhugl | Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl | Pob Myfyrwyr |
|---|---|---|---|
| Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg | 190 | 40 | 235 |
| Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg | 110 | 665 | 840 |
| Pob Myfyrwyr | 300 | 705 | 1,080 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

- O'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, dechreuodd 63% gyrsiau hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. Yn achos 37% o'r rheini a oedd yn rhugl yn Gymraeg, *nid oeddent* yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.

- O'r myfyrwyr a gychwynnodd gyrsiau AGA yng Nghymru yn 2019/20, roedd 22% ar gyrsiau sy'n eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg tra bod 28% o fyfyrwyr wedi nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg.

**Tabl F.4: Nifer y myfyrwyr sy'n cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg, a'u gallu i addysgu yn y Gymraeg, sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl lefel ysgol, 2014/15 i 2019/20**

| | Lefel Ysgol | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg | Ysgol Gynradd | 135 | 150 | 145 | 110 | 95 | 145 |
| | Ysgol Uwchradd | 120 | 95 | 90 | 100 | 75 | 90 |
| | Pob Lefel Ysgol | 255 | 245 | 235 | 210 | 175 | 235 |
| Siaradwr Cymraeg rhugl | Ysgol Gynradd | 190 | 200 | 220 | 195 | 165 | 185 |
| | Ysgol Uwchradd | 165 | 135 | 130 | 110 | 100 | 115 |
| | Pob Lefel Ysgol | 350 | 330 | 350 | 305 | 265 | 300 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]


- Mae nifer y myfyrwyr sy'n dechrau hyfforddiant i addysgu yn Gymraeg 36% yn fwy yn 2019/20 nag yn 2018/19 yn sgil gostyngiad ar lefel gynradd ac uwchradd. Gellir priodoli hyn i gynnydd yn y niferoedd ar lefel gynradd ac uwchradd ond mae'r cynnydd yn fwy yn achos myfyrwyr AGA newydd ar lefel gynradd (52%).
- Mae nifer y myfyrwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi cynyddu 14% yn 2019/20 o gymharu â 2018/19. Mae'r cynnydd yn fwy ymhlith myfyrwyr AGA uwchradd yn benodol (16%).

# Adran G: Demograffeg

Mae’r holl ddata ynglŷn â demograffeg a ddangosir yma yn ymwneud â myfyrwyr a oedd yn astudio yng Nghymru, ond mae data demograffig ynglŷn â myfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio yn y DU ar gael ar StatsCymru.

## Rhywedd

### Siart G.1: Cyfran y myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd sy’n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl lefel ysgol, 2019/20




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

[Gweler y data]

### Tabl G.1: Rhywedd a lefel ysgol myfyrwyr sy’n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2019/20

| | Dynion | Menywod | Pobl |
|---|---|---|---|
| Ysgol gynradd | 125 | 490 | 615 |
| Ysgol uwchradd | 190 | 275 | 465 |
| Cyfanswm | 315 | 765 | 1,080 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*


(a) Mae cyfanswm y personau'n cynnwys y rheini o ryw amhenodol ac yn anhysbys, ac mae'n cynnwys y rheini a gategoreiddiwyd fel 'Arall'

[Gweler y data]

- Roedd pedair gwaith yn fwy o fenywod ag o ddynion yn dechrau hyfforddi i fod yn athrawon cynradd yn 2019/20, a dwywaith yn fwy o fenywod na dynion ar y cyfan.
- Roedd mwyafrif y dynion (61%) yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd, tra’r oedd mwyafrif y menywod (64%) yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol gynradd.

**Tabl G.2: Pwnc a rhywedd myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru, 2019/20**

| | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwyddoniaeth | 30 | 30 |
| Gwyddoniaeth Gyffredinol | - | * |
| Bioleg | 10 | 10 |
| Cemeg | 15 | 10 |
| Ffiseg | - | 10 |
| Mathemateg | 20 | 20 |
| Dylunio a Thechnoleg | 10 | 5 |
| Systemau Gwybodaeth | 5 | 5 |
| Celf | 10 | 5 |
| Astudiaethau Busnes | 5 | 5 |
| Drama | 15 | 10 |
| Saesneg | 45 | 15 |
| Daearyddiaeth | 20 | 10 |
| Hanes | 25 | 30 |
| Ieithoedd Modern | 20 | 5 |
| Cerddoriaeth | 10 | * |
| Addysg Gorfforol | 25 | 35 |
| Addysg Grefyddol | 15 | 5 |
| Cymraeg | 20 | 5 |
| Cyfanswm Ysgol Uwchradd | 275 | 190 |



*fynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*


(a) Mae cyfanswm y personau'n cynnwys y rheini o ryw amhenodol ac yn anhysbys, ac mae'n cynnwys y rheini a gategoreiddiwyd fel 'Arall'

[Gweler y data]

- Yn 2019/20, roedd mwy o fyfyrwyr gwrywaidd yn dilyn cyrsiau AGA uwchradd Hanes ac Addysg Gorfforol na myfyrwyr benywaidd.
- Cafwyd nifer tebyg o fyfyrwyr STEM benywaidd a gwrywaidd – gyda 65 o fenywod a 65 o ddynion yn 2019/20 - Gwyddoniaeth, Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg, a TG yw'r pynciau STEM.

## Oedran

**Siart G.2: Oedran myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl y math o radd, 2019/20**




[Gweler y data]

- Roedd y myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ar gyrsiau TAR yn hŷn ar gyfartaledd na'r myfyrwyr ar gyrsiau eraill.
- Roedd ychydig dros 3 o bob 5 (61%) o'r myfyrwyr TAR blwyddyn gyntaf yng Nghymru rhwng 21 a 24 oed.

## Ethnigrwydd

- Dechreuodd 50 o fyfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hyfforddi i fod yn athrawon yng Nghymru yn 2019/20, o gymharu â 1015 o fyfyrwyr o gefndir Gwyn. Mae ethnigrwydd y rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'i grwpio oherwydd mai sampl bach sydd yna. Maent yn cynnwys 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig', 'Du neu Ddu Prydeinig', 'Tsieinïaidd', 'Cymysg' ac 'Arall'.
- Roedd 4.5% o'r myfyrwyr AGA newydd yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn 2019/20, sy'n cymharu â thua 4.0%[1] o boblogaeth Cymru yn ôl cyfrifiad 2011.

---

Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol Cymru, Mawrth 2011 – noder bod y ffigurau ethnigrwydd yn seiliedig ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ond nad yw pob myfyriwr sy'n astudio yng Nghymru yn hanu o Gymru.

## Anabledd

### Tabl G.3: Anabledd ymysg myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2019/20

| | | 2019/20 |
|---|---|---|
| Anabledd hysbys | Anhawster dysgu penodol e.e. dyslecsia | 60 |
| | Dall/rhannol ddall | * |
| | Byddar/nam ar y clyw | 5 |
| | Nam corfforol / problemau symudedd | 5 |
| | Cyflwr iechyd meddwl e.e. iselder | 30 |
| | Nam cymdeithasol / cyfathrebu e.e. anhwylder sbectrwm awtistig | * |
| | Salwch / cyflwr iechyd hirdymor e.e. diabetes, canser | 10 |
| | Anableddau lluosog | 5 |
| | Anabledd arall nad yw wedi ei restru | 10 |
| | Cyfanswm yr anableddau hysbys | 125 |
| Dim anabledd hysbys | | 950 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Caiff anableddau eu hunangofnodi ac felly mae'n bosibl nad yw'n cynnwys pawb sydd ag anabledd penodol.

[Gweler y data]

- Roedd 12% o'r myfyrwyr AGA newydd â rhyw fath o anabledd hysbys.
- Roedd 46% o'r myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf a oedd ag anabledd hysbys yng nghategori "Anhawster Dysgu Penodol" – mae dyslecsia'n gyflwr sydd yn y categori hwn.

## Methodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran Ddiffiniadau.

### Ffynhonnell y data

Daw mwyafrif y data yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2016/17, sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar wefan HESA.

### Cwmpas

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) a ddarperir drwy sefydliadau addysg uwch.

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA.

Mae llwybrau eraill ar sail cyflogaeth i ennill SAC, ond nid yw'r rhain wedi'u cwmpasu gan y bwletin hwn.

### Myfyrwyr

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Cyfrif yw hwn o bob cofrestriad ar gyfer cwrs AGA. Mewn achosion prin pan oedd myfyriwr wedi cofrestru ar ddau wahanol gwrs AGA yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos yn achos Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru:

- bod cofrestriadau amser llawn lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn;
- bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

### Newydd-ddyfodiaid/myfyrwyr sy'n dechrau gyrsiau AGA

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr sy'n dechrau gyrsiau AGA' neu 'newydd-ddyfodiaid' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at gofrestriadau myfyrwyr ar flwyddyn gyntaf cwrs ITE.

### Myfyrwyr cymwysedig

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'y cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion prin pan gafodd myfyriwr ddau wahanol gymhwyster AGA yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

### Pynciau

Mae pynciau'n cael eu mesur ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn. Petai cwrs AGA myfyriwr yn canolbwyntio ar fathemateg hanner yr amser ac ar ffiseg am yr hanner arall, felly, byddai'r ffigurau'n ymddangos fel myfyrwyr 0.5 mathemateg a 0.5 ffiseg.

## Newidiadau i'r fethodoleg

Ers blwyddyn academaidd 2013/14, bu newidiadau sylweddol i'r dull o adnabod myfyrwyr AGA. Bydd y newidiadau'n arwain at niferoedd mwy cyson.

Ers 2013/14, mae cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wedi'u hadnabod â nod 'Cwrs Hyfforddi Athrawon' [*Teacher Training Course*] yn nata HESA. Nodir yn benodol fod y cyrsiau sydd wedi'u cynnwys yn arwain at SAC, yn ddarpariaeth hyblyg a ariennir gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (NCTL) (HCA), neu'n Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Nid yw cyrsiau sy'n arwain at Gymhwyster Athro Addysg Bellach neu Gymhwyster Addysgu Nyrsio a Bydwreigiaeth, ond nid SAC, wedi'u cynnwys.

Rhwng 2008/09 a 2012/13, roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael eu hadnabod yn ôl eu nod campws Prifysgol Agored. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn, roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael eu hadnabod â nod Rhanbarth y Domisil [*Region of Domicile*] yn nata HESA. Dengys dadansoddiad fod y nodau hyn yr un peth ar gyfer myfyrwyr AGA yng Nghymru dros yr un cyfnod.

## Y strategaeth ynglŷn â thalgrynnu

Mae'r dull o gyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA. Bwriedir i'r strategaeth atal achosion o ddatgelu gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn. Yn y strategaeth hon, caiff pob rhif ei dalgrynnu i'r 5 agosaf. Dyma grynodeb o'r strategaeth:

- Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â '*'.
- Mae pob rhif arall yn cael ei dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Mae cyfansymiau hefyd yn destun y fethodoleg dalgrynnu hon; o ganlyniad, efallai na fydd cyfanswm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai manwl. Caiff canrannau llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â '-'.

## Diffiniadau

### Y gallu i addysgu yn y Gymraeg / hyfforddi i addysgu yn Gymraeg

Ystyrir bod myfyrwyr yn rhai 'hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg' os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai'n arwain at dystysgrif ffurfiol o addysg ddwyieithog, neu nad yw'n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu yn y Gymraeg.

### Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y cyfnod adrodd. Er enghraifft, yn ystod cyfnod adrodd 1 Awst 2012 hyd 31 Gorffennaf 2013, bydd yr oedran fel y mae ar 31 Awst 2012.

### Gwlad astudio

Mae'r wlad astudio wedi'i seilio ar gyfeiriad canolfan weinyddol y Sefydliad Addysg Uwch yr aethpwyd iddo. Lloegr fyddai'r wlad astudio i ddysgwr o bell a oedd yn gwneud cwrs mewn prifysgol yn Lloegr.

### Dosbarth gradd

Y cymhwyster a gafwyd ar ddiwedd cwrs AGA. Nid yw dosbarthiadau gradd yn berthnasol i'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

### Y math o radd

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion, a'r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond **nid** yw'r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-raddedig, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau 'Gradd Arall' ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig.

### Anabledd

Ers 2010/11, bu HESA yn gosod anableddau mewn categorïau gan ddefnyddio fersiwn o'r ffrâm codio a luniwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd. Mae wedi'i seilio ar hunanasesiad myfyriwr, ac nid oes rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am anabledd. Yn achos myfyrwyr sy'n parhau, pan nad oedd y wybodaeth yn hysbys eisoes, gall sefydliadau nodi na cheisiwyd gwybodaeth am anabledd myfyriwr. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigurau ynglŷn ag anabledd yn cwmpasu pob myfyriwr sydd ag anabledd.

### Ethnigrwydd

Mae ethnigrwydd wedi'i seilio ar hunanasesiad myfyriwr.

### Myfyrwyr blwyddyn gyntaf

Myfyriwr a ddechreuodd ei gwrs y flwyddyn honno.

### Rhywedd

Mae rhyweddau eraill wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

## Gwlad gartref

Mae 'gwlad gartref' yn cyfeirio at gyfeiriad parhaol (domisil) myfyriwr **cyn** dechrau'r cwrs. Mae myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw wedi'u cynnwys yn "DU, anhysbys", er mwyn cyd-fynd ag ystadegau Addysg Uwch eraill.

## Rhanbarth cartref

Mae 'rhanbarth cartref' yn cyfeirio at gyfeiriad parhaol (domisil) myfyriwr **cyn** dechrau'r cwrs. Mae'r rhanbarthau wedi'u seilio ar y pedwar Consortiwm Rhanbarthol ym maes addysg, sef:

- Y Gogledd – GwE – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
- Canolbarth a De-orllewin Cymru – ERW – Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
- Canolbarth y De – Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De – Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful
- Y de-ddwyrain - Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru – Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd

Mae rhagor o wybodaeth am y Consortia Rhanbarthol ar gael ar Consortia Rhanbarthol.

## Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae'n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill Statws Athro Cymwysedig. Mae'r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy'n dod yn athrawon drwy gyrsiau Addysg Uwch ffurfiol.

## Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Fodd bynnag, caiff unigolyn sy'n ennill SAC yn Lloegr a'r Alban addysgu yng Nghymru.

## Myfyrwyr cymwysedig

Mae 'myfyrwyr cymwysedig' yn cyfeirio at gyfanswm y cymwysterau yn y bwletin hwn drwyddo draw. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng 'myfyrwyr cymwysedig' a 'chymwysterau' ar gael yn yr adran fethodoleg.

## Lefel ysgol

Mae 'lefel ysgol' yn nodi a yw'r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd neu uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn 'gyfnod ysgol'. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i'r un y bu'n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

Mae rhai cyrsiau'n cwmpasu ystod oedran ehangach; yn yr achosion hynny, maent wedi'u categoreiddio yn ôl yr oedran hynaf y maent yn ei gwmpasu. Mae athrawon Blynyddoedd Cynnar wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau, ond nid yn 'Cynradd' neu 'Uwchradd'.

### Myfyrwyr

Mae ‘Myfyrwyr’ yn cyfeirio at gofrestriadau myfyrwyr yn y bwletin hwn drwyddo draw. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng ‘myfyrwyr’ a ‘chofrestriadau myfyrwyr’ ar gael yn yr adran fethodoleg.

### Myfyrwyr yng Nghymru

Ystyr ‘Myfyrwyr yng Nghymru’ yw’r rhai sy’n hyfforddi mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru a phobl sy’n byw yng Nghymru ac sy’n hyfforddi yn y Brifysgol Agored (pan fo hynny’n bosibl).

### Myfyrwyr o Gymru sy’n astudio yn y DU

Ystyr ‘Myfyrwyr o Gymru sy’n astudio yn y DU’ yw’r rhai yr oedd eu cyfeiriad parhaol (domisil) yng Nghymru cyn y cwrs ac sydd bellach yn dysgu mewn Sefydliad Addysg Uwch yn y DU, naill ai yng Nghymru neu yn rhywle arall. Bydd llawer o’r ‘Myfyrwyr o Gymru sy’n astudio yn y DU’ hefyd yn ‘Fyfyrwyr yng Nghymru’.

### Pwnc

Gall myfyrwyr ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd arbenigo mewn pwnc. Mae’r pynciau hyn wedi’u grwpio i’r categorïau a ddarperir.

### Blwyddyn

Blynyddoedd academaidd yw’r blynyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn ôl pum dimensiwn o ansawdd, sef: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae HESA (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae'n rhoi manylion am ansawdd ei data ar ei gwefan.

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau yn y bwletin hwn y tu mewn i Lywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn monitro tueddiadau mewn darpariaeth AGA yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ac i fonitro darpariaeth ledled y DU ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrff cynrychiadol;
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau;

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau o'r rhain:

- Cyngor i Weinidogion;
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar bolisïau addysg yng Nghymru;
- Helpu i fodelu'r cyflenwad a'r galw yn y dyfodol o ran athrawon a llywio dyraniadau derbyn AGA;
- Rhagweld gwariant yn y dyfodol o ran cynlluniau cymorth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru;

### Cywirdeb

Mae'r Cofnod Myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth am gofrestriadau unigol, a fydd yn fwy na nifer y myfyrwyr oherwydd gall myfyriwr gofrestru ar fwy nag un rhaglen astudio. Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol wedi'u cynnwys yng Nghofnod Myfyrwyr HESA.

Cyfrifiad blynyddol o fyfyrwyr yw'r Cofnod Myfyrwyr. Cafodd y camau a gymerwyd gan HESA i sicrhau ansawdd data eu hamlinellu yn yr adran fethodoleg.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Casglodd HESA ddata cofrestru myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 rhwng mis Awst a mis Hydref 2018. Bu gwybodaeth AGA o'r cofnod myfyrwyr ar gael ers mis Ionawr 2017. Mae adeg cyhoeddi'r bwletin hwn wedi'i symud o fis Medi i fis Mehefin er mwyn adlewyrchu'r galw am y wybodaeth.

## Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan dablau fwy manwl ar StatsCymru, sef gwasanaeth am ddim sy'n galluogi ymwelwyr i weld, trin, creu a lawrlwytho data.

## Cymaroldeb a chydlyniaeth

Nid oes unrhyw ffigurau wedi'u cyhoeddi ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 ar gyfer gwledydd eraill y DU y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau yn y bwletin hwn.

Mae HESA yn cyhoeddi adroddiad sy'n defnyddio dull gwahanol i'r bwletin hwn, ond sy'n peri bod modd cymharu hyfforddiant athrawon mewn addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol. Ceir hefyd gyhoeddiadau sy'n cwmpasu AGA o bob un o wledydd y DU mewn cysylltiad â'u polisïau a'u dyraniadau eu hunain (gweler y cyhoeddiadau isod).

## Cyhoeddiadau cysylltiedig

Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer y DU (HESA)

Cyfres o dablau sy'n edrych yn eang ar niferoedd myfyrwyr yn sefydliadau'r DU, gan gynnwys un tabl sy'n cymharu cymwysterau a chofrestriadau AGA ar draws pob un o bedair gwlad y DU.

Ceisiadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar Ddiwedd Cylch 2020 (UCAS)

Dau adroddiad sy'n archwilio ystadegau ynglŷn ag ymgeiswyr a cheisiadau ar gyfer cyrsiau AGA yng Nghymru a Lloegr

Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Llywodraeth Cymru/HESA)

Adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion ynghylch cofrestriadau a chymwysterau myfyrwyr.

Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch yn y DU (Llywodraeth Cymru/HESA)

Adroddiad blynyddol sy'n cyflwyno data yn ôl gweithgaredd a lleoliad ynghylch ymadawyr addysg uwch â gradd.

Ystadegau am y Gweithlu Addysg (Cyngor y Gweithlu Addysg)

Ystadegau ynglŷn â phobl sydd wedi'u cofrestru i addysgu mewn ysgolion/sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

Ystadegau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (CCAUC)

Ystadegau cryno gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch niferoedd, nodweddion, a chymwysterau myfyrwyr AGA.

Cyfrifiad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (Adran Addysg Llywodraeth y DU)

Adroddiad sy'n darparu gwybodaeth dros dro ynghylch ffigurau recriwtio HCA yn Lloegr, gan gynnwys cymariaethau rhwng derbyniadau cynnar i gyrsiau HCA a dyraniadau hyfforddiant athrawon yn Lloegr.

Proffiliau perfformiad hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd (Adran Addysg Llywodraeth y DU)

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn darparu golwg manwl ar ganlyniadau cyrsiau AGA yn Lloegr, gan gynnwys cymwysterau a statws cyflogaeth y rhai sydd wedi cwblhau, chwe mis ar ôl iddynt gymhwyso.

Taflen Wybodaeth Ystadegol: Hyfforddiant cychwynnol athrawon yn Sefydliadau Addysg Uwch Gogledd Iwerddon (Adran yr Economi – Gogledd Iwerddon)

Taflen gryno sy'n nodi manylion am gofrestriadau HCA, a'r nifer sy'n ei gwblhau, yng Ngogledd Iwerddon.

Ystadegau Cryno ynghylch Ysgolion yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban)

Trosolwg ar ystadegau ysgolion yr Alban, gan gynnwys athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n dechrau eu cwrs cynefino mewn ysgol yn yr Alban.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd, a'n cyfrifoldeb ni yw parhau i gydymffurfio â'r safonau hyn.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/addysg-gychwynnol-i-athrawon

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy StatsCymru, sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

## Y diweddariad nesaf

Mai 2022 (gallai hyn newid)

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.